## Rhagarweiniad

Mae cyfres o Gwestiynau Cyffredin wedi'i llunio i helpu canolfannau i gynnal arholiadau yr haf hwn. Maent yn ymdrin â'r senarios mwyaf nodweddiadol. Bydd y cyrff dyfarnu'n gallu rhoi cyngor pellach. Gweler eu manylion cyswllt ar **dudalen 6**. Dylai canolfannau gyfeirio hefyd at y gyfres o fwletinau arbennig mae'r CGC yn eu llunio i helpu swyddogion arholiadau wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer arholiadau'r haf hwn.

**Rhaid** i bob canolfan fod â chynllun wrth gefn arholiadau ar waith. Dylai hwn ymdrin â senarios fel gwres eithafol, gweithredu diwydiannol ac amhariad ar drafnidiaeth. Rhaid i'r cynllun wrth gefn arholiadau hefyd sicrhau bod staff cyflenwi priodol ar gael pe bai aelod allweddol o staff yn absennol yn ystod adeg hanfodol o gyfres arholiadau Mehefin 2023. Rhaid dynodi dirprwyon i gyflenwi yn absenoldeb pennaeth y ganolfan, yr uwch arweinydd sy'n rheolwr llinell ar y swyddog arholiadau, a'r swyddog arholiadau ei hun.

## Cynnal arholiadau

### Cwestiwn 1

### A oes gan y canolfannau unrhyw hyblygrwydd o ran lle byddent yn gallu cynnal arholiad?

Rhaid i gynllun wrth gefn arholiadau y ganolfan gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal arholiadau mewn safle arall os nad yw prif safle(oedd) yr ysgol neu goleg ar gael ar gyfer arholiadau.

Os gallai ysgol neu goleg ddefnyddio safle arall ar gyfer arholiadau, yna byddai'r ffurflen trefniadau safle arall yn cael ei llenwi. Gellid llenwi'r ffurflen hon ar ôl cynnal yr arholiad. Mae rhagor o fanylion am drefniadau safle arall i'w cael yn: [https://www.jcq.org.uk/exams-office/online-forms/](https://www.jcq.org.uk/exams-office/online-forms/)

Byddai Porth Gweinyddu Canolfannau'r CGC yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- TLM
- FSMQ
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 2/Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Cymru yn unig).

Byddai PAAO yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymwysterau Pearson canlynol:

- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Dyfarniadau Pearson Edexcel
- Cymwysterau TGAU Pearson International.

**Cwestiwn 2**

**A yw canolfannau'n gallu defnyddio'r broses trosglwyddo ymgeiswyr i ganiatáu i arholiad gael ei gynnal?**

Gallai ysgol neu goleg arall, canolfan arholiadau gofrestredig, weithredu fel 'canolfan letyol' a chynnal yr arholiad. Dyma fyddai'r broses trefniant trosglwyddo ymgeisydd safonol.

Gan y gellid nodi 'canolfan letyol' yn gymharol fyr rybudd, byddai angen cyngor gan y corff dyfarnu. Er enghraifft, gallai fod angen i'r corff dyfarnu hysbysu'r ganolfan letyol fod angen lawrlwytho fersiwn electronig (PDF) o'r papur cwestiynau o'u safle allrwyd diogel i'w argraffu.

Mae rhagor o fanylion am y broses trefniant trosglwyddo ymgeisydd i'w cael yn:
https://www.jcq.org.uk/exams-office/online-forms/

Byddai'r ffurflen trefniant trosglwyddo ymgeisydd ar-lein yn cael ei llenwi. Gellid llenwi'r ffurflen hon ar ôl cynnal yr arholiad.

Byddai Porth Gweinyddu Canolfannau'r CGC yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymwysterau canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
- Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA
- Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
- Cymwysterau Technegol Caergrawnt
- TLM
- FSMQ
- TAG (UG a Safon Uwch)
- TGAU
- Tystysgrifau Lefel 3 OCR
- Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
- CBAC Lefel 2/Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Cymru yn unig).

Byddai PAAO yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cymwysterau Pearson canlynol:

- Cymwysterau Cyntaf BTEC
- Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
- Dyfarniadau BTEC Tech
- Dyfarniadau Pearson Edexcel
- Cymwysterau TGAU Pearson International.

**Cwestiwn 3**

**A oes gan y canolfannau unrhyw hyblygrwydd o ran pryd y gallent ddechrau arholiad?**

Caniateir i ganolfan amrywio amserau dechrau swyddogol arholiadau y corff dyfarnu hyd at 30 munud, yn unol ag adran 6 y llyfryn 'Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau'.

Os na all canolfan ddechrau arholiad o fewn 30 munud i amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu, gall yr arholiad ddechrau'n hwyrach ar yr amod:

- ei fod yn cael ei gynnal ar y dyddiad ar yr amserlen; **a**

- bod ymgeiswyr dan oruchwyliaeth aelod o staff y ganolfan yn ddim hwyrach na 30 munud ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu tan ddechrau'r arholiad (gweler paragraff 6.5 o'r llyfryn 'Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau').

Rhaid i ymgeiswyr fod dan oruchwyliaeth aelod o staff y ganolfan neu oruchwyliwr yn unol â'r gofynion a nodir ym mharagraff 7.5 y llyfryn 'Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau'. **Rhaid** i'r ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ar ddiwrnod yr arholiad, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar **dudalen 6** y ddogfen hon i esbonio'r amgylchiadau. Os yw grwpiau o ymgeiswyr i fod i sefyll yr arholiad mewn ystafelloedd gwahanol, gallwch ddechrau pob grŵp cyn gynted ag y byddwch yn barod, ar yr amod bod yr ymgeiswyr sydd ar ôl dan oruchwyliaeth y ganolfan.

Os yw canolfan wedi gwneud pob ymdrech i gynnal yr arholiad ar y dyddiad ar yr amserlen, dylid gofyn am gyngor gan y corff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar **dudalen 6**. Byddai gohirio'r arholiad tan y bore canlynol dan **amgylchiadau prin ac eithriadol** yn drefniant pan fydd popeth arall wedi methu, a byddai'n rhaid i'r corff dyfarnu perthnasol ei gymeradwyo.

**Cwestiwn 4**

**A fyddai canolfan yn gallu gwneud cais am ystyriaeth arbennig os na fyddai modd cynnal yr arholiad?**

Os yw'r ganolfan wedi ystyried yr opsiynau canlynol:

- trefniant safle arall;
- trefniant trosglwyddo ymgeisydd; **ac**
- aildrefnu'r arholiad yn ddiweddarach ar y dyddiad swyddogol, neu ei ohirio tan y bore canlynol:

yna **rhaid** cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol ar ddiwrnod yr arholiad ar yr amserlen i ofyn am gyngor. Gallai fod yn bosibl gwneud cais am ystyriaeth arbennig.

Os yw ymgeisydd yn anelu at gael dyfarniad gradd yng nghyfres arholiadau Mehefin 2023 a'i fod eisoes wedi cwblhau un gydran gyfan, sef isafswm o 15% o'r asesiad cyfan, gellid dyfarnu gradd wedi'i chyfrifo iddo, y cyfeirir ati'n gyffredin fel 'aegrotat'. Byddai hyn yn sicrhau nad yw'r ymgeisydd dan unrhyw anfantais.

Byddai'r ganolfan yn gwneud cais am ystyriaeth arbennig (absennol am reswm derbyniol) yn y ffordd arferol.

Fodd bynnag, byddai angen eglurhad ar y corff dyfarnu perthnasol o ran cymhwystra ymgeiswyr am ystyriaeth arbennig lle nad ydynt yn anelu at gael dyfarniad cymhwyster yng nghyfres arholiadau Mehefin 2023.

Dylai canolfannau gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* sydd i'w gael yn: http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration

**Cwestiwn 5**

**Beth sy'n digwydd os yw ymgeisydd yn cael ei effeithio gan amhariad ar drafnidiaeth gyhoeddus a'i fod yn cyrraedd ar ôl dechrau arholiad?**

Gellir caniatáu i ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau arholiad fynd i mewn i'r ystafell arholiadau a sefyll yr arholiad. Gwneir hyn yn ôl disgresiwn llwyr y ganolfan.

**Rhaid** caniatáu'r amser llawn ar gyfer yr arholiad i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael sefyll gan y ganolfan.

Ystyrir bod ymgeisydd yn hwyr iawn os bydd yn cyrraedd:

- fwy nag awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad sy'n un awr neu fwy o hyd, h.y. ar ôl 10.00am ar gyfer arholiad bore neu ar ôl 2.30pm ar gyfer arholiad prynhawn; **neu**

- ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad sy'n llai nag awr o hyd.

Dylai canolfannau gyfeirio at baragraff 21.4 cyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* o ran y broses i'w dilyn pan fydd ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr iawn i arholiad.

Os yw ymgeisydd yn cyrraedd o fewn awr i amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad sy'n un awr neu fwy o hyd, h.y. cyrraedd rhwng 9.00am a 10.00am ar gyfer arholiad bore neu rhwng 1.30pm a 2.30pm ar gyfer arholiad prynhawn, **nid oes** angen i'r ganolfan lenwi unrhyw waith papur.

## Ystyriaeth Arbennig

### Cwestiwn 6

**Beth ddylai canolfan ei wneud pan fydd ymgeisydd yn dangos symptomau haint resbiradol?**

Os yw ymgeisydd yn dangos symptomau haint resbiradol, bod ganddo dymheredd uchel ac nad yw'n teimlo'n ddigon iach i sefyll ei arholiadau, dylai'r ganolfan:

- ddweud wrth yr ymgeisydd am aros gartref a pheidio â sefyll ei arholiadau tan nad oes ganddo dymheredd uchel mwyach (os oedd ganddo o gwbl) neu ei fod yn teimlo'n ddigon iach i sefyll ei arholiadau;

- gofyn i'r ymgeisydd ddefnyddio Ffurflen 14 i hunanardystio ei reswm dros fod yn absennol; a

- chyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig mewn perthynas â phob arholiad a gollwyd i'r cyrff dyfarnu perthnasol gan ddefnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'.

Gan fod bwlch o hyd at 7 diwrnod o leiaf rhwng arholiadau ym mhob pwnc TGAU, TAG UG a Safon Uwch, dylai fod ymgeiswyr yn gallu ennill graddau yn seiliedig ar gydrannau eraill a gwblhawyd ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion lleiaf ar gyfer trefniadau graddio gwell. (Gweler adran 4.3, tudalennau 8-9 cyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*.)

Dylai canolfannau yn Lloegr gyfeirio hefyd at y dudalen we People with symptoms of a respiratory infection including COVID-19 - GOV.UK (www.gov.uk)

Dylai canolfannau yng Ngogledd Iwerddon gyfeirio hefyd at y dudalen we Symptoms of respiratory infections including COVID-19 | nidirect

### Cwestiwn 7

**Beth ddylai canolfan ei wneud os yw arholiad wedi'i drefnu ar ddiwrnod lle mae gwres eithafol?**

Os yw'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi rhybudd gwres eithafol gan dynnu sylw at amhariad mawr ac effeithiau iechyd andwyol posibl, pennaeth y ganolfan sydd i benderfynu a fydd yr arholiad yn cael ei gynnal ai peidio dan amgylchiadau heriol o'r fath. Dylai penaethiaid canolfannau fonitro'r sefyllfa leol, gan nodi unrhyw gyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Os yw pennaeth y ganolfan yn ystyried ei bod yn ddiogel i'r arholiad gael ei gynnal, yna dylid cyflwyno cais ar-lein am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu perthnasol ar gyfer yr ymgeiswyr hynny yr effeithiwyd ar eu perfformiad yn andwyol gan yr amodau yn yr ystafell arholiad. Caniateir iddynt wneud cais am ystyriaeth arbennig lle mae ymgeiswyr wedi profi gwres eithafol dros 30 gradd yn ystod arholiad.

Fel arall, os nad yw pennaeth y ganolfan yn ystyried ei bod yn briodol i'r arholiad gael ei gynnal, yn dilyn cyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol, yna dylid cyflwyno cais ar-lein i'r corff dyfarnu perthnasol am ystyriaeth arbennig ar gyfer yr arholiad a gollwyd gan ddefnyddio'r categori 'ymgeisydd absennol'. (Gweler adran 6, tudalen 12 cyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*.)

Gan fod bwlch o hyd at 7 diwrnod o leiaf rhwng arholiadau ym mhob pwnc TGAU, TAG UG a Safon Uwch, dylai fod ymgeiswyr yn gallu ennill graddau yn seiliedig ar gydrannau eraill a gwblhawyd ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion lleiaf ar gyfer trefniadau graddio gwell. (Gweler adran 4.3, tudalennau 8-9 cyhoeddiad y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*.)

## Manylion cyswllt y cyrff dyfarnu

| | |
|---|---|
| AQA | eos@aqa.org.uk |
| CCEA | centresupport@ccea.org.uk |
| OCR | support@ocr.org.uk |
| Pearson | https://support.pearson.com/uk/s/qualification-contactus |
| CBAC | arholiadau@cbac.co.uk |